Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Canllawiau i lwyfannau rhannu fideos

## Arweiniad i ddarparwyr ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2021

# 1. Trosolwg

### Beth sy'n cael sylw yn yr arweiniad hwn

Bwriad yr arweiniad yw helpu darparwyr llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'u sefydlu yn y DU i ddeall eu rhwymedigaethau rheoleiddiol. Daeth y fframwaith statudol sy'n berthnasol i'r gwasanaethau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2020 (cyfeirir ato fel "y Fframwaith VSP"). Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys gofynion i roi mesurau ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol mewn fideos.

Mae'r ddogfen hon yn:

- darparu cefndir rheolau a gofynion y Fframwaith VSP;
- esbonio pa fathau o gynnwys a allai fod yn ddeunydd niweidiol mewn fideos;
- esbonio'r mesurau gall llwyfannau eu rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol ac yn darparu arweiniad ar sut mae rhoi'r mesurau hynny ar waith yn effeithiol;
- esbonio'r meini prawf ymarferol a chymesur y mae'n rhaid i ddarparwyr eu hystyried wrth bennu pa fesurau i'w rhoi ar waith. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys priodoleddau unigol VSPs a hawliau a buddiannau cyfreithlon defnyddwyr;
- annog darparwyr i sefydlu prosesau rheoli risg i'w harwain ar ba fesurau i'w rhoi ar waith a sut mae gwneud hynny;
- darparu gwybodaeth am ddull Ofcom o fonitro a gorfodi.

## Trosolwg o'r gofynion

Mae'r Fframwaith VSP yn mynnu bod darparwyr yn rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu:

a) y cyhoedd rhag **"deunydd niweidiol perthnasol".** Mae hyn yn cynnwys:

   i) deunydd sy'n cymell trais neu gasineb yn erbyn grwpiau penodol

   ii) cynnwys a fyddai'n cael ei ystyried yn drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth; deunydd cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia

b) pobl dan 18 oed rhag **"deunydd wedi'i gyfyngu".** Mae hyn yn cynnwys:

   i) deunydd sydd â thystysgrif R18 neu a fyddai'n debygol o gael un

   ii) deunydd sydd wedi cael ei farnu'n anaddas ei ddosbarthu, neu a fyddai'n debygol o gael ei farnu'n anaddas ei ddosbarthu (fel trais sadistig neu artaith)

   iii) deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan 18 oed

Rydym yn cyfeirio at y ddau gategori hyn o ddeunydd fel "deunydd niweidiol" ac yn trafod y ddau ofyniad gyda'i gilydd fel "y gofyniad i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol". Bydd canllawiau ar y gofynion penodol mewn cysylltiad â safonau hysbysebu yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

Mae'r Fframwaith VSP yn amlinellu'r mesurau i ddarparwyr eu rhoi ar waith, fel y bo'n briodol, i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mesurau sy'n ymwneud â thelerau ac amodau
- mesurau sy'n ymwneud ag adrodd, fflagio neu sgorio cynnwys
- mesurau rheoli mynediad fel sicrwydd oedran a rheolaethau rhieni
- prosesau cwyno (a gofyniad ar wahân i ddarparu gweithdrefn ddiduedd ar gyfer datrys anghydfodau)
- adnoddau a gwybodaeth ynghylch llythrennedd yn y cyfryngau

Nid oes yn rhaid i ddarparwyr VSP roi'r holl fesurau hyn ar waith, ond dylent benderfynu a yw'n briodol rhoi mesur penodol ar waith yn dibynnu ar a fyddai gwneud hynny'n ymarferol ac yn gymesur, gan ystyried ffactorau gan gynnwys maint a natur y llwyfan; y math o ddeunydd ar y llwyfan a'r niwed y gallai ei achosi; a hawliau a buddiannau cyfreithlon defnyddwyr. Rhaid rhoi mesurau ar waith mewn ffordd sy'n diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.

## Natur yr arweiniad hwn

Mae'r Fframwaith VSP yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr VSP o ran sut maen nhw'n diogelu defnyddwyr. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth y sector a phwysigrwydd caniatáu i gwmnïau arloesi o ran y systemau a'r prosesau maen nhw'n eu defnyddio i ddiogelu defnyddwyr. Felly, nid set o gamau gorfodol yw'r ddogfen hon. Ei bwriad yw helpu darparwyr i benderfynu ar y ffordd orau o gydymffurfio â'r gofynion statudol. Cyfrifoldeb y darparwyr yw pennu pa fesurau sy'n briodol i'w gwasanaeth, ond os ydym yn credu bod defnyddwyr yn annhebygol o gael eu diogelu'n effeithiol heb ddull penodol, rydym yn nodi hynny. Er bod y ddeddfwriaeth yn nodi'r mesurau y mae'n rhaid i ddarparwyr eu rhoi ar waith, fel y bo'n briodol, gall darparwyr ddewis rhoi mesurau eraill ar waith i ddiogelu defnyddwyr hefyd.

Isod rydym wedi rhestru'r prif ofynion i ddarparwyr mewn cysylltiad â diogelu, a'n disgwyliadau o ran cydymffurfio.

| **Beth mae'n rhaid i ddarparwyr VSP ei wneud?** |
|---|
| Diogelu'r cyhoedd rhag deunydd niweidiol perthnasol |
| Diogelu pobl dan 18 oed rhag deunydd wedi'i gyfyngu |
| Darparu gweithdrefn ddiduedd ar gyfer datrys anghydfodau |
| **Pa fesurau sy'n cael eu hystyried yn rhan annatod o ddiogelu defnyddwyr?** |
| Cael telerau ac amodau sy'n gwahardd uwchlwytho deunydd niweidiol perthnasol, a'u gweithredu'n effeithiol |
| Lle bo telerau ac amodau darparwr yn mynnu bod y rhai sy'n llwytho i fyny yn rhoi gwybod iddynt os yw fideo'n cynnwys deunydd wedi'i gyfyngu, cymryd camau gweithredu mewn ymateb i'r hysbysiad hwn i ddiogelu pobl dan 18 oed rhag y deunydd hwnnw |

| |
|---|
| Cael rhyw fath o fecanwaith fflagio ac adrodd, a'i weithredu'n effeithiol |
| Gweithredu system dilysu oedran gadarn ar VSPs sy'n arbenigo mewn pornograffi neu ddeunydd nad yw'n addas ei ddosbarthu, neu lle bo risg sylweddol o bobl dan 18 oed yn gweld deunydd o'r fath. |
| **Beth mae Ofcom yn annog darparwyr yn gryf i'w wneud i gefnogi cydymffurfedd?** |
| Cynnal proses rheoli risg i gefnogi penderfyniadau ynghylch pa fesurau sy'n briodol ar gyfer diogelu defnyddwyr ar y llwyfan a sut mae eu rhoi ar waith |
| Casglu gwybodaeth i fesur effeithiolrwydd mesurau'r llwyfan |

## Dull Ofcom o asesu cydymffurfiad â'r Fframwaith VSP

Cyfrifoldeb darparwyr yw penderfynu sut maen nhw'n bodloni'r gofyniad i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod darparwyr VSP yn cydymffurfio â'r gofynion hyn a byddwn yn ei chyflawni drwy weithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill, a drwy ein gweithgareddau monitro a gorfodi.

Er ein bod yn cydnabod na fydd deunydd niweidiol yn cael ei ddileu'n gyfan gwbl o lwyfan o bosibl, rydym yn disgwyl i ddarparwyr wneud ymdrechion ystyrlon i atal defnyddwyr rhag ei weld. Mae'r drefn VSP yn ymwneud â systemau a phrosesau diogelwch llwyfan, nid â rheoleiddio fideos unigol. Ond mae'n bosibl y bydd tystiolaeth o gyffredinrwydd deunydd niweidiol ar lwyfan yn golygu bod angen craffu'n agosach. Bydd Ofcom am ddeall y mesurau mae llwyfan wedi'u rhoi ar waith, pa mor effeithiol ydynt yn diogelu defnyddwyr, ac unrhyw brosesau sydd wedi dylanwadu ar benderfyniadau darparwr ynghylch pa fesurau diogelwch i'w defnyddio.

Ynghyd ag ymgysylltu â'r darparwyr eu hunain, rydym yn disgwyl cynyddu ein dealltwriaeth o ran a yw defnyddwyr yn cael eu diogelu'n effeithiol drwy, er enghraifft, fonitro cwynion ac ymgysylltu â phartïon â diddordeb fel elusennau, cyrff anllywodraethol a grwpiau diogelwch technoleg. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi penderfyniadau Ofcom ynghylch y meysydd ffocws hyn.

Bydd dealltwriaeth Ofcom o'r mesurau mae cwmnïau wedi'u rhoi ar waith, a'r hyn sy'n golygu diogelwch effeithiol i ddefnyddwyr, yn datblygu dros amser. Bydd y llwyfannau eu hunain, a'r risg o niwed ar lwyfannau, yn datblygu. Caiff darparwyr ddewis cymryd camau gweithredu eraill i ddiogelu defnyddwyr, rhai nad ydynt wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth. Byddwn yn dymuno deall y rhain hefyd. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau'n glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. I ategu hyn, byddwn yn cyhoeddi blaenoriaethau blynyddol i VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU a, lle bo angen, yn diweddaru'r arweiniad hwn.

Hefyd byddwn yn cyhoeddi Adroddiad VSP blynyddol i ddarparu tryloywder ar y mesurau mae darparwyr yn eu defnyddio i ddiogelu defnyddwyr ac i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd gennym.

Os bydd gan Ofcom bryderon, byddwn yn gweithredu'n gyson â'n canllawiau gorfodi. Lle bo'n briodol, byddwn yn ymdrechu'n gyffredinol i weithio gyda darparwyr yn anffurfiol er mwyn ceisio

mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Os bydd pryderon difrifol yn codi, mae gennym y pŵer i gymryd camau gorfodi cyflym a chadarn, a allai gynnwys sancsiynau. Gallai'r sancsiynau gynnwys hysbysiad gorfodi yn mynnu bod y darparwr VSP yn cymryd camau penodol, a/neu gosb ariannol. Yn y pen draw, mae gennym y pŵer i atal neu gyfyngu ar wasanaeth yn yr achosion mwyaf difrifol o ddiffyg cydymffurfio. Byddwn yn defnyddio ein harfau gorfodi yn gymesur a phan fo'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn gyfiawn, gan dalu sylw i'r hawl i ryddid mynegiant gan gynyddu diogelwch defnyddwyr ar yr un pryd.

Mae rhagor o wybodaeth am gynllun a dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSP, yn ogystal â'n blaenoriaethau blynyddol cyfredol, ar gael ar wefan Ofcom.